**Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd**
**Dydd Mercher 9 Hydref 2019 10:30 – 13:30**
**Hafan Cymru, Ffordd Stephen, Pensarn, Caerfyrddin, SA31 2BG**

**Cofnodion y Cyfarfod**

Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Jon Sparkes | Prif Weithredwr Crisis (Cadeirydd) |
| Katie Dalton | Cyfarwyddwr Cymorth Cymru |
| Peter Mackie | Uwch-ddarlithydd, Prifysgol Caerdydd |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai CLlLC |
| Clare Budden | Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Tai Clwyd Alyn |
| John Puzey | Prif Weithredwr Shelter Cymru |
| Glynne Roberts | Rheolwr Rhaglenni BIP Betsi Cadwaladr |
| Gaynor Toft | Rheolwr Corfforaethol, Tai, Cyngor Sir Ceredigion |
| Lindsay Cordery-Bruce | Prif Weithredwr The Wallich |
| Clarissa Corbisiero | Cyfarwyddwr Polisi Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Nick Morris | Rheolwr Polisi a Chyfathrebu Crisis |
| Emma Williams | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Polisi Tai, Llywodraeth Cymru |
| Sarah Rhodes | Pennaeth Digartrefedd, Llywodraeth Cymru |
| Mark Price | Arweinydd Prosiect ac Ysgrifenyddiaeth y Grŵp, Llywodraeth Cymru |

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Tamsin Stirling | Arbenigwr Tai Llawrydd |
| Frances Beecher | Prif Weithredwr Llamau |
| Bonnie Navarra | Arweinydd Ysgogi Newid, Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol |

Croesawodd JS bawb i bumed cyfarfod y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a nodwyd yr ymddiheuriadau. Nododd fod adroddiad cyntaf y Grŵp wedi cael ei gyflwyno i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ac y caiff ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad, a'r adroddiad ei hun, eu cyhoeddi'n fuan.

**1. Adborth ar argymhellion yr adroddiad**

Crynhowyd argymhellion yr adroddiad gan JS – cyfeirier at y pecyn o sleidiau a gyflwynwyd ar y cyd â phapurau'r cyfarfod.

Nodwyd y bydd L C-B yn cydlynu'r gwaith o roi'r argymhellion byrdymor ar waith o ran bod yn "gyfaill beirniadol" a dwyn sefydliadau i gyfrif.

Ar ôl y crynhoad o argymhellion yr adroddiad cafwyd y sylwadau canlynol gan y Grŵp:

- Cyfeiriodd KD at y canllawiau newydd ar y Grant Cymorth Tai a ph'un a oes unrhyw bwyntiau allweddol yr hoffai'r Grŵp eu bwydo i mewn i'r ymgynghoriad ar y cyd ai peidio.
- Nodwyd bod y ddogfen newydd ar Godau Safonau hefyd yn cael ei datblygu ac efallai y bydd y Grŵp am fwydo i mewn i hynny.
- Dylid datblygu strategaeth gyfathrebu ymhellach er mwyn tynnu sylw at flaenoriaethau'r Grŵp. Bydd NM yn ystyried y strategaeth bresennol a sut y gellir ei diweddaru er mwyn gallu cyfleu manylion yr argymhellion yn hawdd a sicrhau bod y negeseuon allweddol yn glir i randdeiliaid ehangach. Yna, caiff y strategaeth gyfathrebu ei dosbarthu i'r Grŵp i'w nodi. **Cam Gweithredu – NM**
- Nododd y Grŵp hefyd y byddai ffeithlun i gyfleu'r negeseuon allweddol yn ddefnyddiol a chytunodd EW i'w datblygu a'i ariannu. **Cam Gweithredu – EW**
- Nodwyd bod angen adnoddau ar awdurdodau lleol i allu rhoi newidiadau ar waith a bod angen i sectorau eraill hefyd chwarae eu rhan gyda'r Grŵp yn "dangos" sut y gellir cyflawni hyn.
- Mae angen cynnwys uwch-arweinwyr mewn awdurdodau lleol a'r sector iechyd yn llawn yn y broses o roi newidiadau ar waith.

**2. Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ac adborth arno**

Cyflwynodd EW yr ymateb drafft y bydd Llywodraeth Cymru yn debygol o'i roi i argymhellion yr adroddiad. Er mwyn rhoi'r cyd-destun, nododd fod y Datganiad Polisi Strategol wedi cael ei gyhoeddi ar ôl datganiad llafar gan y Gweinidog ac y bydd yn galw ar sefydliadau i wneud "Adduned" i weithio yn unol ag egwyddorion polisi'r datganiad ar 10 Hydref. Mae'r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol eisoes wedi dechrau – h.y. cyfarfodydd â chydweithwyr iechyd/byrddau iechyd, y pedwar awdurdod lleol lle y rhoddir ffocws (Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam).

Bydd y Gweinidog yn cyhoeddi adroddiad y Grŵp ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru ddydd Mawrth nesaf (15 Hydref) a bydd yn canolbwyntio ar y pum argymhelliad cyntaf.

Cafodd yr ymrwymiadau allweddol y bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno arnynt eu nodi a'u trafod – cyfeirier at y pecyn o sleidiau. Gofynnwyd am gymorth y Grŵp i ddrafftio'r disgrifiadau swydd ar gyfer y cydgysylltydd a swyddi eraill y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyllido. Mae sgyrsiau gydag awdurdodau lleol yn dechrau o ddifrif ac mae rhestr eang o randdeiliaid i ymgysylltu â nhw wedi cael ei llunio.

Ymhlith y sylwadau a wnaed gan y Grŵp yn y drafodaeth ddilynol roedd y canlynol:

- Bydd y ffocws ar y "pedair ardal allweddol" ond bydd hyfforddiant arall yn agored i awdurdodau eraill ac mae Llywodraeth Cymru yn barod i drafod hynny os bydd awdurdodau eraill am chwarae rhan ragweithiol yn hynny o beth. Nodwyd bod angen cyfleu'r neges hon yn eang.
- Bydd ymgais i hwyluso sgyrsiau bord gron gyda phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid yn fuan ym mhob un o'r pedair ardal â ffocws.

- Awgrymwyd y dylai'r sgyrsiau hyn gynnwys defnyddwyr gwasanaethau hefyd. Gall clipiau fideo o brofiadau pobl fod yn rymus.
- Cynigiodd aelodau o'r Grŵp gymryd rhan yn y cyfarfodydd â'r pedwar awdurdod lleol.
- Bydd cydgysylltwyr ym mhob un o'r pedair ardal yn allweddol, ond mae'n rhaid darparu adnoddau ar eu cyfer yn gyflym gyda phroses recriwtio "lai manwl". Nid oes angen i gydgysylltwyr gael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol ond bydd yn rhaid iddynt feithrin perthynas waith dda â'r awdurdod.
- Dylai canllawiau ar gymorth tai fod yn gyfrwng i gydgysylltu iechyd a thai.
- Mae cysylltiadau rhwng darparwyr tai cofrestredig, byrddau cynllunio ardal, cynrychiolwyr cymdeithasau tai a phob rhan o'r sector yn hollbwysig. Mae llawer o arian yn y system ac mae angen cysoni'r cyfan. Mae'n rhaid i'r sector tai gael ei gydnabod fel partner dilys a chredadwy yn yr holl drafodaethau hyn.
- Mae angen deall yr adnoddau presennol yn y pedwar awdurdod mawr a'u blaenoriaethau a'r ffordd y mae'r gwaith a'r cyllid hwn yn ategu hynny.
- Holi a oes unrhyw arian ychwanegol (h.y. gan grwpiau ffydd a sefydliadau elusennol) heblaw dim ond cyllid Llywodraeth Cymru i weithredu ar yr argymhellion. Trafodwyd y byddai rhoi rôl benodol i'r grwpiau hyn (h.y. dod o hyd i ddodrefn ar gyfer eiddo gwag a'i ddarparu) yn fwy buddiol yn hytrach na gweithredu rheng flaen. Mae cyfle i ddarparu adnoddau gan y trydydd sector ar lefel weithredol mewn ffordd gydweithredol ac ar y cyd, gyda phawb yn symud i'r un cyfeiriad. Bydd angen cydgysylltu'r gwaith hwn ac mae'n rhaid i'r cyllid fod yn gynaliadwy.
- Dylem roi arweiniad clir iawn o ran rolau'r cydgysylltydd a mentoriaid a dylai'r rhain gael eu datblygu gan y Grŵp. Dylai hefyd fonitro effeithiau newid. Bydd L C-B yn edrych ar y disgrifiadau swydd ac efallai y gallai'r swydd gael ei darparu drwy newid ffocws rolau sy'n bodoli eisoes.
- Mae angen rhoi'r hyfforddiant ar yr adegau mwyaf cyfleus (h.y. ddim ar adeg pan fydd yn rhaid i rywun wedyn ddechrau sifft nos).
- Bydd hyfforddiant allgymorth yn agored i bawb ac yn cynnwys arweinwyr allweddol yn yr heddlu a gwasanaethau iechyd meddwl fel y gallant oll ddeall y nod canolog. Mae manyleb wrthi'n cael ei datblygu ar gyfer yr hyfforddiant a gofynnwyd i'r Grŵp roi unrhyw wybodaeth a all helpu i'w mireinio.

### 3. Edrych Ymlaen

- Bwriedir edrych eto ar y cwestiwn ar "ba fframwaith o bolisïau a chynlluniau" nesaf ac ystyried sut y byddwn yn mynd i'r afael â digartrefedd yn fwy cyffredinol – cyfeirier at y tabl fframwaith yn y pecyn o sleidiau.
- Bwriedir ystyried "sut" y byddwn yn mynd i'r afael â'r cwestiwn hwn a'r amserlen ar gyfer y gwaith hwn. Erbyn diwedd mis Ionawr, bydd adroddiad nesaf y Grŵp wedi'i gwblhau i'w gyflwyno i'r Gweinidog.
- Trafodaeth am rannu'r gwaith yn ffrydiau gwaith y gall pobl eu harwain, fel a ganlyn, ar ffurf gweithdai ar gyfer y cyfarfod ym mis Tachwedd er mwyn creu "cwestiwn dechreuol" ac yna'i gynnwys mewn cynigion drafft ar gyfer y cyfarfod ym mis Ionawr. Y ffrydiau gwaith yw: (a) mesurau atal cyffredinol/sylfaenol; (b) mesurau atal wedi'u targedu ac atal argyfwng; (c) rheoli newid/gweithlu/canfyddiadau am atal argyfwng.

- Cydnabyddir bod y meysydd uchod (a-c) yn ymestyn y tu hwnt i'r grŵp hwn a bod angen ymgysylltu â phartneriaid mewn meysydd sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli, ac a oes ffordd amgen inni ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn yn well (h.y. gweithdai mewn digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn fuan).
- Byddai'r ffocws ar gyfer pob ffrwd waith fel a ganlyn: (a) Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, tlodi plant, yr hawl i gael cartref, lles a gwaith cysylltiedig; (b) (gellir ei rannu'n ddau) wedi'i dargedu at ysgolion, ysbytai, y rhai sy'n gadael y carchar h.y. llwybrau, cynnal tenantiaethau, dim troi allan i ddigartrefedd.
- Gwirfoddolodd aelodau i arwain y ffrydiau gwaith fel a ganlyn: (a) Clarissa Corbisiero, Naomi Alleyne a Bonnie Navarra (b) Peter Mackie, John Puzey, Clare Budden a Katie Dalton (c) Tamsin Stirling
- Byddai Jon Sparkes a Nick Morris yn gweithio ar draws pob Grŵp.
- Mae angen hefyd ystyried beth yw'r egwyddorion fel y gallwn lunio ein hargymhellion yn y modd hwnnw.
- Cydnabuwyd hefyd fod lleiafrif bach iawn o bobl y bydd angen darpariaeth arbenigol arnynt am resymau diogelwch (eu diogelwch nhw a diogelwch eraill) yn hytrach na darpariaeth brif ffrwd neu Tai yn Gyntaf, naill ai'n barhaol neu am gyfnod cyfyngedig. Bydd L C-B (ar wahân) yn llunio darn o waith "beth yw maint y broblem" a all fwydo i mewn i'r argymhellion, a bydd CC yn bwydo i mewn o safbwynt landlord.
- Bydd cyfathrebu yn cael ei ystyried yn rhan o ffrydiau gwaith y gweithlu a'r cyhoedd.
- Mae rheoli newid yn bwysig (h.y. datgomisiynu hosteli).

**4. Profiad uniongyrchol ac ymgysylltu â gweithwyr rheng flaen**

- Mae'r arolwg i weithwyr proffesiynol yn dal ar agor am bythefnos. Ymatebodd tua 170 o bobl, a chafwyd rhaniad da rhwng gwasanaethau statudol a gwasanaethau cymorth. Bydd cydweithwyr sy'n ymdrin ag argyfyngau yn dadansoddi'r ymatebion er mwyn paratoi rhai sleidiau a all gael eu defnyddio wedyn i roi'r adborth mewn digwyddiadau ac ati, a byddant hefyd yn mapio i ba gyfeiriad rydym yn mynd nawr.
- Cafwyd dros 280 o ymatebion i'r arolwg i'r rhai sydd â phrofiad uniongyrchol. Maes gwaith yn dod i ben. Mae'r dewisiadau sydd ar gael yn aros yr un fath â'r hyn a nodwyd mewn cofnodion blaenorol.

Trafodaeth ar wahân ar "godi'r ffôn" i ofyn a oes gan brifysgolion ac ati unrhyw ddyraniad y gellid ei ddefnyddio. Peter Mackie, Jon Puzey a Jon Sparkes i drafod.

Cytunwyd y gall aelodau'r Grŵp weld copi dan embargo o ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad cyntaf, er mwyn gallu paratoi'r dadleuon i'w defnyddio yn y cyfryngau ac ati.

**Mark Price**
**Yr Is-adran Polisi Tai**
**Llywodraeth Cymru**